# ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2014/15

**Cynghorydd: Annwen Hughes** **Grŵp: Plaid Cymru**

**Ward: Llanbedr**

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Rol a chyfrifoldebau:**
Gweithio yn y gymuned a chyd-weithio gyda'r Cyngor Cymuned lleol i wneud yn siwr for buddiannau'r gymuned yn cael eu diogelu.
Aelod o'r:
Pwyllgor Craffu Corfforaethol
Pwyllgor Craffu Cymunedau
Pwyllgor Craffu Gwasanaethau
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol

**Gweithgareddau etholaethol:**
**Pentref Llanbedr**
Parhau i sicrhau fod GanBwyll yn ymweld â phentref Llanbedr a Llanfair yn gyson er mwyn gwneud yn siwr bod goryrru yn cael ei fonitro.
Wedi trefnu bod mesurydd traffic yn cael ei osod ar y ffordd ger yr ysgol gynradd yn Llanbedr er mwyn cael gweld a oes angen tawelyddion traffic gan bod gan rai rhieni bryderon ynglŷn â chyflymder gyrrwyr wrth basio yr ysgol.
Wedi mynychu diwrnod agored Coed Hafod y Bryn yn y pentref a chael taith tywys o amgylch y goedwig gan Swyddogion y Parc Cenedlaethol a'r gwifoddolwyr oedd yn tacluso'r llecyn er mwyn gweld y gwaith oedd wedi cael ei wneud.

**Maes Awyr Llanbedr**
Newyddion cyffroes ganol mis Gorffennaf 2014 bod y maes awyr wedi cael ei ddewis ar y rhestr o fod yn un o wyth safle a fyddai yn addas ar gyfer porth ofod, ac ers hynny mae cyhoeddwyd bod y maes awyr wedi cael ei ddewis ar y rhestr fer o chwech.
Wedi i'r newyddion ddod i'r amlwg, cynnal trafodaethau gyda Chyfarwyddwyr y maes awyr a gwneud amryw o gyfweliadau teledu a radio.

**Ffordd Osgoi**
Cynlluniau wedi eu llunio a sawl ymgynghoriad cyhoeddus wedi eu cynnal yn dangos y gwahanol opsiynau er mwyn cael gwell mynedfa i'r maes awyr.
Cynllun terfynnol wedi cael ei ddewis erbyn hyn ac 'rwyf mewn trafodaethau gyda YGC i wneud yn siwr bod cyswllt da i'r pentref.
Wedi mynychu sawl cyfarfod o Randdeiliad Parth Menter Eryri gyda Chyfarwyddwyr y maes awyr ac aelodau o gyrff eraill yn bresennol er mwyn trafod yr hyn sydd yn digwydd ac yn mynd i ddigwydd yn y maes awyr a chynlluniau y ffordd osgoi.

**Stormydd mis Ionawr 2014**
Gwaith o drwsio y clawdd llanw wedi ei gwblhau.
Am bod gan y tirfeddianwyr bryderon bod y clawdd hwn yn dal i ollwng mi gafodd cyfarfod ei drefnu gennyf ganol mis Mehefin lle 'roedd y ffermwyr oedd yn cael eu heffeithio ynghyd â Swyddogion o'r Cyrff Cyhoeddus perthnasol yn bresennol ac fe gafwyd addewid ganddynt y byddant yn ail edrych ar y clawdd.
Mae'r gwaith adnewyddu tai Morfa Mawr a ddifrodwyd gan y dŵr yn nawr wedi cael ei orffen ac wedi cael eu trosglwyddo yn ộl i'r tenantiad.

**Mentrau a gweithgareddau eraill:**
Mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanbedr yn fisol
Mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanfair yn fisol
Aelod o bwyllgor Eisteddfod Ardudwy (Trysorydd)
Aelod o bwyllgor Cylch Ardudwy Apel Meirionnydd CAFC 2016

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:**

| PWYLLGOR | PRESENNOL |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Y Cyngor | 5 |
| Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 2 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 4 |
| Pwyllgor Craffu Gwasanaethau | 1 |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 2 |
| Pwylgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | 4 |
| Is-Bwyllgor Trwyddedu Canolog | 4 |
| Fforwm Ardal Meirionnydd | 5 |
| Cyfarfodydd Paratoi Pwyllgorau Craffu Corfforaethol | 3 |
| Cyfarfodydd Paratoi Pwyllgorau Craffu Cymunedol | 4 |

Canran Presenoldeb: 94%

**Roeddwn yn absennol o'r Pwyllgorau a nodir isod oherwydd:**

-

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**

Seminar Ysgolion 28.4.14
Fforwm Mentrau Cymdeithasol Gwynedd 25.9.14
Gweithdy - Ad-drefnu Llywodraeth Leol 1.10.14
Gweithdy - arbedion ariannol 8.10.14
Ymweliad Pwyllgor Craffu Cymunedau a safle GwyriAD 15.10.14
Cyfarfod i drafod Cynllun Datblygu Unedol 27.10.14
Seminar Ariannol 06.02.15

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol:**

Ysgol Gynradd Llanbedr (Llywodraethwr)
Ysgol Ardudwy (Llywodraethwr)
Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig
Panel Mabwysiadu Gwynedd a Môn

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd canlynol:**

Grŵp Rhandeiliad Gwella Mynediad i Faes Awyr Llanbedr
Grŵp Cyswllt Bont Briwet
Cyfarfodydd Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

| **Corfforaethol** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Llywodraethu Effeithiol | 9/04/2014 |
| Strategaeth Wastraff | 7/05/2014 |
| Gweithdai Diogelu Plant ac Oedolion Bregus | 7/05/2014, 24/06/2014, 4/07/2014 |
| Arwain Cymunedau trwy Newid | 02/07/2014 |
| Trawsnewid Gwasnaethau Cymdeithasol | 17/09/2014 |
| Arwain yn Ddiogel | 19/11/2014 |
| Gwe-Ddarlledu | 26/11/2014 |
| Rhiantu Corfforaethol | 25/02/2015 |

| **Ychwanegol** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Sgiliau Cadeirio Effeithiol | 16/04/2014 |
| Gweithdy Amddiffyn Plant | 24/06/2014 |
| Pendantrwydd a Delio hefo Pobl Anodd | 20/03/2015 |
| Rheoli Amser a Ymdopi efo Straen | 17/04/2015 |

Cyfanswm nifer o oriau: 40 awr